**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd J Smith

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd D Grehan

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd
Mr M Farley, Uwch Gynllunydd
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd T Williams

**39 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto a G Hughes.

**40 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**41 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**42 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**43 COFNODION 22.06.23**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023 yn rhai cywir.

**44 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**45 CAIS RHIF: 22/1474**

Codi adeilad deulawr 16 ystafell wely at ddiben cynnig gofal dan oruchwyliaeth gyda chyfleusterau parcio cysylltiedig ac ardal cadw sbwriel – Dosbarth defnydd cynllunio C2. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 06/03/23) **HEN GARTREF GOFAL NYRSIO GLYNCORNEL, HEOL NANT-Y-GWYDDON, LLWYNYPIA, TONYPANDY, CF40 2JF**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms Bethan Evans (Ymgeisydd). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Nododd y Pwyllgor nad oedd Ajay Kambo (Asiant) na Jason Roberts (Gwrthwynebydd) a oedd wedi gofyn am gael annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cais yn bresennol i wneud hynny.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, ar amod ychwanegol bod rhaid cynnal arolwg o gyflwr y briffordd ac unrhyw waith atgyweirio i'r briffordd yn sgil y cerbydau adeiladu.

**46 CAIS RHIF: 22/1305**

Gosod llawr caled yn yr ardd gefn a phafin ag ymylon isel cysylltiedig er mwyn caniatáu mynediad oddi ar Heol yr Eglwys
**13 CILGANT CONWY, TON-TEG, PONTYPRIDD, CF38 1HP**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Jason Rees (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Aelodau nad sy'n rhan o'r pwyllgor/Aelodau Lleol – siaradodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Stacey a C Preedy ynglŷn â'r cais a chyflwyno eu pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio’r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**47 CAIS RHIF: 23/0506**

Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu cartref gofal preswyl arbenigol ag 16 ystafell wely (dosbarth defnydd cynllunio C2) a gwaith cysylltiedig
**TIR Y TU ÔL I RIFAU 15 AC 16 FFORDD Y RHIGOS, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9PS**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl iddo gael ei ystyried **PENDERFYNWYD** gohirio'r penderfyniad i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn caniatáu trafodaethau pellach rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio a'r ymgeisydd i drafod manylion y cais.

**48 CAIS RHIF: 22/1464**

Estyniad unllawr i'r ochr, estyniad deulawr i'r ochr, patio wedi'i godi y tu cefn i'r adeilad a gwaith cysylltiedig.
**45 STRYD Y BRYN, HENDREFORGAN,Y GILFACH-GOCH, Y PORTH, CF39 8UA**

(**Noder:** Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A Roberts (Aelod nad sy'n rhan o'r pwyllgor/Aelod Lleol) fuddiant personol sy'n rhagfarnu yn ymwneud â chais rhif 22/1464.
"Mae fy chwaer yn byw'n agos at safle'r cais."

Datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Holmes (Aelod nad sy'n rhan o'r pwyllgor/Aelod Lleol) hefyd fuddiant personol sy'n rhagfarnu yn ymwneud â chais rhif 22/1464
"Mae tad-cu'r ymgeisydd yn gyswllt personol agos."

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Abbie Davies (Ymgeisydd)
- Andrew Ayles (Asiant ar ran y Gwrthwynebwyr)

Rhoddwyd y cyfle i'r Ymgeisydd ymateb i'r Gwrthwynebwyr ond gwrthododd wneud hynny.

Defnyddiodd yr Aelodau Lleol A Roberts a G Holmes, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol, eu hawl i annerch y Pwyllgor ar y cais yn unol ag adran 14(2) o'r Cod Ymddygiad, a chyflwyno eu cefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig. Yn dilyn hynny, gadawon nhw'r cyfarfod er mwyn i'r pwyllgor drafod.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**49 CAIS RHIF: 22/1375**

Cais cynllunio amlinellol (gyda phob mater wedi'i gadw) ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig.
**TIR GER 6–8 HEOL BRYNMAIR, GODREAMAN, ABERDÂR, CF44 6LR**

(Nodwch: Ar yr adeg yma yn y cyfarfod gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis)

Siaradodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Evans a T Williams (Aelodau nad sy'n rhan o'r pwyllgor/Aelodau Lleol) am y cais gan fynegi eu pryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(Nodwch: Cymerodd y Pwyllgor doriad o bum munud ar yr adeg hon).

(Nodwch: Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Tomkinson a dychwelodd W Lewis i'r cyfarfod.)

**50 CAIS RHIF: 23/0360**

Parhau i ddefnyddio fel gardd.
**TŶ DEWI SANT, HEOL CASTELLAU, BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2RA**

(Nodwch: Ar yr adeg yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams y cyfarfod.)

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Materion Ffyniant a Datblygu.

**51 CAIS RHIF: 20/1056**

Adeiladu adeilad cymunedol hynod gynaliadwy oddi ar y grid ar dir coedwigaeth,

gan gynnwys ystafell ddosbarth, ardal lles, llwybr mynediad, modd i gynhyrchu ynni ar y safle (paneli gwynt a phaneli ffotofoltäig) a system ddraenio i gefnogi cyflawni prosiect partneriaeth Adfer Mawndiroedd Coll De Cymru. (Derbyniwyd Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth ar 5 Mehefin 2023)
**TIR COEDWIGAETH I'R GOGLEDD DDWYRAIN O FAES PARCIO HENDRE'R MYNYDD, ODDI AR HEOL RHIGOS, TREHERBERT**

(Nodwch: Ar yr adeg yma, dychwelodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams i'r cyfarfod)

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

(Nodwch: Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams wedi ymatal rhag pleidleisio ar yr eitem yma gan nad oedd yn bresennol ar gyfer y drafodaeth gyfan).

**52 CAIS RHIF: 23/0170**

Troi siop ac annedd i mewn i 2 fflat. (Derbyniwyd cynlluniau a disgrifiad diwygiedig ar 09/05/2023)
**SIOP, 2 STRYD FAWR, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8BP**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**53 CAIS RHIF: 23/0422**

Dymchwel tŷ'r gofalwr, ad-drefnu'r maes parcio/man gollwng/codi teithwyr/cilfan i fysiau, llwybrau troed, maes chwaraeon 3G, llifoleuadau, mannau chwarae newydd, peiriannau a gwaith cysylltiedig (manylion technegol diwygiedig wedi'u derbyn 01/06/2023)
**YSGOL UWCHRADD PONTYPRIDD, HEOL CILFYNYDD, CILFYNYDD, PONTYPRIDD, CF37 4SF**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**54 CAIS RHIF: 22/0273/10**

Newid defnydd o dafarn i 4 annedd (Derbyniwyd Nodyn Trafnidiaeth ar 4 Gorffennaf 2022 a derbyniwyd Strategaeth Ddraenio Aflan ar 2 Chwefror 2023)
**TAFARN THE BARN, HEOL MEISGYN, MWYNDY, PONT-Y-CLUN, CF72 8PJ**

Cyflwynodd yr Uwch Gynllunydd y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 9 Mehefin 2023, pan gymeradwyodd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu (Cofnod 8).

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad Swyddogion. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais, a hynny'n groes i

argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad pellach ac yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad.

**55 CAIS RHIF: 22/0668/10**

Trosi hen eglwys yn 11 fflat (Derbyniwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) ar 11 Gorffennaf 2022, a'r Asesiad o'r Effaith Ecolegol ar 20 Medi 2022) **EGLWYS GYNULLEIDFAOL LLOEGR YSTRAD, 1 HEOL YR EGLWYS, TONPENTRE, CF41 7AD.**

Cyflwynwyd i'r Aelodau gan yr Uwch Gynllunydd yr adroddiad a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod y cais wedi ei drafod gan y Pwyllgor ar 3 Tachwedd 2022 yn wreiddiol. Penderfyniad yr Aelodau bryd hynny oedd cymeradwyo'r cais, yn amodol ar ystod o delerau a chytundeb Adran 106.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad pellach a oedd yn tynnu sylw at yr wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd, gan gynnwys yr Asesiad Dichonoldeb a **PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais heb yr angen am gytundeb Adran 106 ar gyfer cyfraniad tai fforddiadwy oddi ar y safle.

**56 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi, a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 12/06/23 hyd at 07/07/23.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**